

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Dyma ni wedi cyrraedd yr hanner tymor olaf ar gyfer eleni. Mae yna galendr hanner tymor newydd wedi ei greu – mae dolen ar waelod y llythyr hwn, fel ym mhob llythyr. Cofiwch wirio'r calendr a nodi'r digwyddiadau o bwys e.e Llundiau dosbarth, Mabolgampau Ysgol, Noson Barbeciw ac ati. (Sylwch yn arbennig ar y beicio/sgwtera pob dydd Gwener)

### Eisteddfod yr Urdd

Hoffwn longyfarch pawb a fynychodd Meifod yr wythnos diwethaf i gymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cystadlodd 91 o blant yr ysgol yn yr Eisteddfod, a braf eu gweld yn dod i'r brig yng nghystadlaethau'r Gân Actol a'r Dawnsio Amlgyfrwng, ac 2<sup>ail</sup> i'r Gerddorfa. Llongyfarchiadau hefyd i Grŵp Blwyddyn 3 ar eu llwyddiant gyda'u cywaith Celf a Chrefft, yn ogystal â'r unigolion Ani, Bela a Jonas; ac i Leusa am ei barddoniaeth i fl.5a6.



1af – Dawns Aml-gyfrwng



1af – Cân Actol



2ail - Cerddorfa

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant am gefnogaeth yr holl rieni a theluoedd a deithiodd i Meifod eleni. Gwerthfawrogwn eich ymrwymiad i sicrhau fod y plant yno ar amser, mewn gwisg, ac yn barod i berfformio. Deallwn hefyd fod y gost o fynychu'r Eisteddfod yn ddruod – er i'r ysgol dalu am docynnau'r disgyblion, roedd y gost fesul oedolyn neu deuluoedd ac ati yn disgyn ar eich hysgwyddau chi, ac am hynny rydym yn ddiolchgar i chi am ein cefnogi.

### Y Gymraeg – un o filiwn


Ar faes yr Eisteddfod wythnos diwethaf roedd standin Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig sticeri i siaradwyr Cymraeg i ddangos eu bod yn **un o filiwn** – sef y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Trwy ddewis addysg Gymraeg ar gyfer eich plant, rydych chi'n cyfrannu at wireddu'r nod hwnnw, ac mae pob un plentyn yn Yr Ysgol Gymraeg yn un o filiwn! Mi fyddwn ni'n rhannu sticeri tebyg yn ystod yr hanner tymor hwn i ymfalchïo yn ein Cymreictod ni yn yr ysgol, a dathlu bod ein plant ni i gyd yn **un o filiwn** 😊



## Gwlad y Rwla

Dydd Mawrth yma mi fydd y dosbarthiadau Derbyn, Bl.1a2 yn ymweld â Chanolfan y Celfyddydau ar gyfer gweld sioe 'Cerdyn Post o Wlad y Rwla'. Rydyn ni'n ddiolchgar unwaith eto i lywodraethwraig, Nia Evans, am gynorthwyo gyda chais grant 'Ewch i Weld' sydd yn cyfrannu £1,000 tuag at gostau'r ymweliad.

Bydd y plant yn mynychu yn ystod y bore ac yn cael eu cludo gan fysiau.



## Sioe Aberystwyth



Mae'r rhaglen ar gyfer cystadlaethau Sioe Aberystwyth wedi ei hargraffu. Bu disgyblion yr ysgol yn llwyddiannus iawn y llynedd gyda'r ysgol yn ennill Tlws yr ysgol â'r mwyaf o bwyntiau. Dyma rannu gyda chi gystadlaethau eleni – dychwelwch y cynnyrch at Mrs Buddug Davies erbyn Dydd Gwener yma (7fed o Fehefin) os gwelwch yn dda. (Manylion yn y ddolen isod)

Cliciwch [yma](#) i weld y cystadlaethau sy'n addas i blant cynradd

## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr **hanner tymor hwn**. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r haf ar ddydd Gwener y 19eg o Orffennaf.

Bydd y flwyddyn ysgol newydd yn cychwyn ar ddydd Mercher y 4<sup>ydd</sup> o Fedi i blant (bydd hyfforddiant staff ar yr 2<sup>ail</sup> a 3<sup>ydd</sup>).

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

02/06/2024

[www.ysgolgydraeg.cymru](http://www.ysgolgydraeg.cymru)

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

*We have reached the last half term for this year. There is a new half term calendar - a link is at the bottom of this letter, as with all letters. Remember to check the calendar and note the important events e.g. Class photos, School Sports, BBQ Evening etc. (Note especially the cycling/scooting every Friday)*

### **Urdd National Eisteddfod**

*I would like to congratulate everyone who attended Meifod last week to take part in the Urdd's National Eisteddfod. 91 children from the school competed in the Eisteddfod, and it was great to be successful in the Cân Actol and Multi-media Dance competitions, along with 2<sup>nd</sup> for the Orchestra. Congratulations also to the Year 3 Group on their success with their Art and Craft work, as well as the individuals Ani, Bela and Jonas; also to Leusa for her poetry for yrs.5&6*



1st – Multi-media dance



1st – Cân Actol



2nd - Orchestra

*I would like to sincerely thank all the parents and families who travelled to Meifod this year. We appreciate your commitment to ensure that the children were there on time, in costume, and ready to perform. We also understand that the cost of attending the Eisteddfod was expensive for you – and although the school paid for the pupils' tickets, the cost for adults and families etc to come and support fell on your shoulders, and for that we are very grateful.*

### **The Welsh Language – one in a million**


*At the Eisteddfod last week the Welsh Language Commissioner's stand offered stickers for Welsh speakers to show that they are **one in a million** - which is the goal of a million Welsh speakers by the year 2050. By choosing Welsh education for your children, you are contributing to that goal, and each child at Yr Ysgol Gymraeg will indeed be **one in a million!** We will share similar stickers during this half term to celebrate our language, and celebrate that our pupils are one in a million 😊*



### **Postcard from Gwlad y Rwla**

This Tuesday the Reception classes along with Years 1 and 2 will be visiting the Arts Centre to see the 'Postcard from Gwlad y Rwla' We are once again grateful to the school governor, Nia Evans, for assisting with the 'Ewch i Weld' grant application which contributes £1,000 towards the costs of the visit.

The children will attend during the morning and travel by bus.



### **Aberystwyth show**



The programme for the Aberystwyth Show competitions have been printed. The school was very successful last year winning the trophy for the school with the most points. Here are this year's competitions - please return your entries to Mrs Buddug Davies by Friday the 7th of June. (Details in the link below) Click [here](#) to see the competitions suitable for primary school children.

### **Half Term Calendar**

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for **this half term**. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.

### **Important dates for next half term**

The school will close for the summer holidays on Friday the 19<sup>th</sup> of July.

The new school year will start on Wednesday the 4<sup>th</sup> of September for children (staff training will be on the 2<sup>nd</sup> and 3<sup>rd</sup>).

**If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.**

Yours sincerely,  
**Gareth L James**  
Acting Headteacher  
02/06/2024

[www.vsgolgymraeg.cymru](http://www.vsgolgymraeg.cymru)